# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar yr 14eg o Fedi 2022
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn
# am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Jones,
Gerallt Davies, Ruby Williams, Hywel Lloyd a Carys Morgan.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Wyn Evans a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cydymdeimlo a'r teulu Brenhinol:**
Mynegodd y Cadeirydd cydymdeimlad ar ein rhan ar farwolaeth ein Brenhines Elizabeth II a chafwyd funud o dawelwch cyn ddechre'r cyfarfod.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Gorffennaf a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Golau yn Nerwen Gam:
Dywedodd y Cynghorydd Carys Morgan ei bod wedi gofyn i Heledd ac Arwyn faint fydde'r Pwyllgor yn barod i gyfrannu tuag at y golau

ychwanegol yn Nerwen Gam, roeddent yn cael cyfarfod arall i drafod hyn. Fe fydd yn adrodd nôl yn y cyfarfod nesa'. Hefyd, dywedodd ein Cynghorydd Sirol ei fod yn mynd i ysgrifennu at Rhodri Llwyd, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol a thynnu ei sylw pwysigrwydd y golau achos ei fod o fewn y terfyn cyflymder yn y pentref.

Newid safle bws:
Dywedodd ein Cynghorydd Sirol fod cyfarfodydd ddim wedi cael eu cynnal eto ond fydd yn adrodd nôl i ni unwaith y byddant wedi eu cynnal.

**Mater cynllunio:**
A220579
Red Lion, Ffosyffin, Aberaeron. SA46 0HA
Bwriad i ddymchwel toiledau allanol a chodi toiledau newydd ynghlwm â'r tafarndy.
Dim gwrthwynebiad.

**Anfoneb Archwilio Cymru:**
Penderfynwyd talu'r anfoneb am £229.00.

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd y Cynghorydd Ruby Williams fod rai o'r trigolion wedi cwyno fod angen golau ychwanegol ochr yr Eglwys ar ffordd Bro Ddewi achos fod llawer o drigolion a phlant ysgol yn ei ddefnyddio i groesi at y safle bws ac yn gallu fod yn dywyll iawn, hefyd mae'r rhan hyn o fewn terfyn cyflymder yn y pentre, dywedodd ein Cynghorwr Sirol Marc Davies ei fod yn mynd i siarad a Simon Bray, sy'n beiriannydd gyda'r Adran Briffyrdd ynglyn a'r mater.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 12fed o Hydref.